## 1.0 Cyflwyniad

*This document is also available in English.*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yw'r Awdurdod Harbwr Statudol ar gyfer ardal Harbwr Conwy fel y diffinnir yng Ngorchymyn Diwygio Harbwr Conwy 1982.

Fis Ebrill 2025 cafodd y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol ("y Cod") ei ddiweddaru a'i ailgyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth (neu fel y'i diwygiwyd). Mae'r Cod yn cynnwys safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morol porthladdoedd a gellir dwyn awdurdodau harbwr i gyfrif mewn perthynas â'u pwerau a'u dyletswyddau cyfreithiol i redeg eu harborau yn ddiogel.

Fel rhan o'r gwaith i fodloni gofynion y Cod, mae CBSC yn cyhoeddi'r Cynllun Diogelwch canlynol ar gyfer gweithrediadau morol am gyfnod o dair blynedd (2025-2028).

Ceir trosolwg cynhwysfawr o strwythur, rheolaeth a threfniadau cynnal a chadw'r System Rheoli Diogelwch a chydymffurfiad CBSC â'r Cod i ategu'r cynllun hwn yn Llawlyfr System Rheoli Diogelwch CBSC ar gyfer Harbwr Conwy.

## 2.0 Polisïau a Gweithdrefnau Morol

Bydd CBSC yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol ac yn datblygu diwylliant gweithredol o ddiogelwch wrth wraidd ei System Rheoli Diogelwch er mwyn bodloni gofynion cenedlaethol y Cod ac ystyried y canllawiau yn nogfen ategol "A Guide to Good Practice on Port Marine Operations".

Mae CBSC wedi cyhoeddi'r polisïau morol canlynol, wedi'u cymeradwyo gan Ddeiliad Dyletswydd CBSC dan y Cod:

- Polisi Diogelwch ar gyfer Gweithrediadau Morol, sydd ar gael ar wefan Cyngor Conwy dan adran "Cychod a Badau" / Cod Diogelwch Morol y Porthladd
- Datganiad Polisi Amgylcheddol, sydd ar gael ar wefan Cyngor Conwy dan adran "Cychod a Badau" / Cod Diogelwch Morol y Porthladd

Bydd yr holl bolisïau morol yn cael eu hadolygu bob tair blynedd (bydd yr adolygiad nesaf yn 2028).

Gan dynnu ar y polisïau uchod, caiff gweithdrefnau, prosesau a chanllawiau i gefnogi gwasanaethau mordwyo a gweithrediadau morol CBSC eu datblygu a'u cynnal ar gylch parhaus o wella'r swyddogaeth diogelwch sy'n seiliedig ar broses fanwl o ddadansoddi risgiau.

Mae'r holl weithdrefnau sy'n ymwneud â gweithrediadau morol wedi'u cynnwys yn Llawlyfr System Rheoli Diogelwch CBSC ac yn destun adolygiad yn rheolaidd.

## 3.0 Rheoli Gweithrediadau Morol

Mae'r Cynllun Diogelwch Morol yn ymrwymo CBSC i reoli a rheoleiddio gweithrediadau morol o fewn cwmpas ei bwerau a'i awdurdod mewn ffordd sy'n diogelu'r harbwr, y defnyddwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd.

Mae CBSC wedi ymrwymo i weithio'n rhagweithiol i feithrin diwylliant diogelwch cadarnhaol ac i wella ei System Rheoli Diogelwch sy'n seiliedig ar risgiau fel rhan o fframwaith i wella perfformiad y swyddogaeth diogelwch yn barhaus.

Bydd CBSC yn ymgymryd â'i rôl a'i gyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac i reoleiddio llongau yn effeithiol er mwyn cefnogi'r holl weithgareddau yn yr harbwr.

I sicrhau darpariaeth gwasanaeth barhaus, bydd diogelwch personél, defnyddwyr yr afon/harbwr a llongau o'r pwys mwyaf i CBSC. Ar adegau fe all hyn effeithio ar barhad gwasanaethau a symudiadau llongau neu achosi oedi i weithgareddau. Fodd bynnag, bydd ystyriaethau masnachol yn eilradd i ddiogelwch gweithgareddau mordwyo.

## 4.0 Amcanion y Cynllun Diogelwch Morol

Mae nodau, polisïau a gweithdrefnau diogelwch morol CBSC wedi'u cynnal gan yr amcanion penodol canlynol:

- Bydd CBSC yn adolygu ei bwerau a'i ddyletswyddau er mwyn sicrhau ei fod yn rheoli ac yn diogelu mordwyo o fewn ei ardal yn y ffordd orau posib' (fel Awdurdod Harbwr Statudol)
- Bydd system rheoli diogelwch CBSC yn cael ei chynnal ar sail proses gynhwysfawr o ddadansoddi risgiau a fframwaith ar gyfer gwella perfformiad y swyddogaeth diogelwch yn barhaus
- Asesiadau risg pwrpasol ar gyfer gweithrediadau a gwasanaethau morol newydd a phresennol, yn ôl yr angen
- Adolygiad rhagweithiol ac ymatebol o beryglon i fordwyo a'r mesurau rheoli risg cysylltiedig sy'n lleihau'r risgiau hynny i lefel dderbyniol (ALARP)
- Bydd yr holl gymorth mordwyo yn cael eu cynnal a'u cadw i safonau'r International Association of Marine Aids to Navigation and Lighthouse Authorities (IALA) ac yn destun adroddiad chwarterol i'r Awdurdod Goleudai Cyffredinol drwy system gronfa ddata'r Local Aids to Navigation Reporting System (LARS)
- Bydd CBSC yn parhau i gysylltu a gofyn am fewnbwn gan bob budd-ddeiliad gyda'r nod cyffredin o ddarparu a chynnal diogelwch morol yn Harbwr Conwy a gerllaw
- Bydd tri archwiliad blynyddol gan yr Unigolyn Dynodedig ac adolygiadau blynyddol gan yr Harbwrfeistr o'r System Rheoli Diogelwch, y swyddogaethau a'r gweithdrefnau yn cael eu cynnal

- Bydd CBSC yn mynd i’r afael yn brydlon ag unrhyw ddiffyg ac yn cymryd camau i wella diogelwch fel y nodir drwy’r broses archwilio
- Bydd y trefniadau monitro, archwilio ac adolygu a nodir ar System Rheoli Diogelwch CBSC yn cael eu gweithredu fel y bo’n briodol gan yr Harbwrfeistr
- Bydd hyfforddiant cynhwysfawr a Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael i bersonél morol (yn arbennig i’r rheiny sy’n gyfrifol am fordwyo diogel)
- Cynnal a gweithredu cynlluniau a gweithdrefnau argyfwng morol CBSC, yn cynnwys trefniadau pan fo gollyngiadau olew
- Bydd CBSC yn adolygu ei gynlluniau a’i bolisïau yn ffurfiol, ac yn cyhoeddi Cynllun Diogelwch ar gyfer Gweithrediadau Morol ac asesiad rheolaidd (o leiaf bob 3 blynedd) yn dangos y perfformiad yn erbyn y cynllun

## 5.0 Targedau Rheoli ar gyfer y Cynllun Diogelwch Gweithrediadau Morol

| Rhif | Darpariaeth Gwasanaeth / Gweithgaredd | Targed |
|---|---|---|
| 1 | Digwyddiadau Mordwyo | Dim digwyddiadau mawr, anafiadau difrifol na llygredd difrifol o ganlyniad i fethiant System Rheoli Diogelwch CBSC a/neu ddarpariaeth gwasanaeth diogelwch CBSC. Nifer cyfartalog y digwyddiadau yn ystod oes y cynllun (2025-2028) i fod yn llai na’r nifer cyfartalog o ddigwyddiadau a gafwyd dros y tair blynedd ddiwethaf (2021-2024). |
| 2 | Gwarchodaeth | Cymorth Mordwyo.<br>Cyrraedd targedau LARS Trinity House (GLA). |
| 3 | Hyfforddi personél morol | Datblygiad proffesiynol parhaus.<br>Sicrhau cyfnod hyfforddi digonol ar gyfer personél newydd cyn aseinio tasgau iddynt. |
| 4 | Cysylltu ac ymgynghori â budd-ddeiliaid yr harbwr | Sicrhau bod cyfathrebu da a rheolaidd ynglŷn â materion diogelwch morol gweithgareddau newydd a phresennol. |
| 5 | Archwilio’r System Rheoli Diogelwch | Sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal bob tair blynedd gan yr Unigolyn Dynodedig a bod unrhyw ddiffyg yn cael sylw prydlon. |
| 6 | Adolygu’r Trefniadau Rheoli | Sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn flynyddol gan yr Harbwrfeistr a bod camau unioni / gwelliannau yn cael eu gwneud yn brydlon. |